

Chwarae teg i'r Ddaear! – angen gwrando ar her Herman Daly

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn ystyried beth sy'n deg wrth geisio gwarchod y blaned ...

HEB os mae'r syniad o 'gynaliadwyedd' yn drysu. Mae'r holl sôn am ein cyfrifoldebau at ein plant a phlant ein plant yn bur annelwig ac mae angen gwell dealltwriaeth.

I fi, mae'n gymorth symleiddio a phwysleisio'r angen i osgoi gwneud pethau sy'n amlwg yn niweidiol, yn 'anghynladwy' - gor-bysgota, parhau i ychwanegu tua 50 biliwn tunnell o nwyon tŷ gwydr i'r awyr bob blwyddyn neu ddifrodi coedwigoedd trofannol a bioamrywiaeth ac yn y blaen.

Felly, hefyd, yn gymdeithasol, dydi hi ddim yn gynaliadwy i gael cyfundrefn lle mae talu trethi'n fater o ddewis i'r cyfoethog.

Dydi hi ddim yn bosib rhagweld y dyfodol, felly'r egwyddor gall yw 'paid â gwneud pethau'n waeth'! Ond a yw hyn yn ddigonol?

Yn ôl polisi swyddogol Llywodraeth Cymru, y nod ydi defnyddio dim mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r byd.

Ond beth sy'n deg? A ydan ni'n sôn am siâr tair miliwn o Gymry ar y cyd - hynny yw, siâr genedlaethol - a derbyn bydd yna raniadau o fewn Cymru rhwng y da eu byd a'r gweddill? Neu a ydan ni'n sôn am gyfran deg i bob unigolyn o'r Sahara i'r Arctig, gan adlewyrchu'r syniad fod pawb yn gyfwerth yng ngolwg Duw?

PWNC SY'N ARWAIN AT DDEDDFU

Beth am haeddiant? Beth am uchelgais ac entrepreneuriaeth, gallu a gofynion gwahanol, y diog a'r diwyd? Dydi'r syniad o siâr unigol, gyfartal, ddim yn apelio'n fawr yn y byd masnachol go-iawn!

Hefyd, gan fod technoleg yn newid yn gyflym a'n galluoedd a'n dyfeisgarwch yn creu asedau newydd, a yw ein siâr unigol - neu genedlaethol - yn tyfu neu'n lleihau am fod priddoedd yn erydu, tir yn troi'n ddiffeithwch a llai o dir â'r y pen i'n cynnal?

Ychydig o drafod sydd am hyn bob dydd, ond, gyda'n Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn galw am sgwrs genedlaethol a sawl papur polisi pwysig ar fin cael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth, mae'n bwnc pwysig a fydd yn arwain at ddeddfu.

Mae un dyn, o leia', wedi ceisio wynebu'r her ddeallusol.

Am ddegawd, roedd Herman Daly yn brif economegydd Adran Amgylchedd Banc y Byd a cheisiodd osod meini prawf clir ar gyfer un wedd ar gynaliadwyedd, cynaliadwyedd amgylcheddol.

Yn gyntaf, gwahaniaethodd rhwng ein defnydd o adnoddau adnewyddadwy, fel dŵr, a rhai nad oes modd eu hadnewyddu, fel glo a mwynau. Yna, ystyriodd allu ein priddoedd, ein dyfroedd a'r awyr i chwalu a diheintio ein sbwriel a'n llygredd.

Nid yn annisgwyl, yr awgrym ydi na ddylen ni ddim defnyddio adnoddau adnewyddadwy'n gynt nag y maen nhw'n cael eu hadnewyddu e.e. cyfyngu dal pysgod i raddfa twf poblogaeth y pysgod; peidio â 'dwyn' dŵr o acwifferau tanddaear yn gynt nag y maen nhw'n ail-lenwi.

ARGYMHELLION SY'N DANGOS CYFEIRIAD

Mwy dyrys ydi'r ymdriniaeth o adnoddau nad oes modd eu hadnewyddu. Awgrym Daly ydi bod ein defnydd ohonyn nhw'n dderbyniol os oes canran ddigonol o'r elw'n cael ei fuddsoddi i greu adnoddau adnewyddadwy i'r un pwrpas (ac mi fyddwn i'n ychwanegu, i ailgylchu'r deunydd gwerthfawr e.e. yn achos mwynau etc).

O ran chwalu a diheintio gwastraff, rhaid parchu gallu meicrobau a chylchrediadau byd-eang ein blaned i drin a gwasgaru'r cemegolion.

Mae argymhellion Daly yn rhesymol a chall ond yn bellgyrhaeddol. Er nad oes modd eu gwireddu ar frys, maen nhw'n dangos cyfeiriad.

Y broblem ydi cyfuno hyn efo 'anghenion' y byd economaidd. Sut mae sicrhau'r buddsoddi tymor-hir sydd ei angen i wireddu hyn, pan mae'r farchnad yn dibynnu ar wneud elw byrdymor i gyfranddalwyr?

Dydi'r blaned ddim yn ymdopi efo lefelau nwyon tŷ gwydr, ond dw i'n amheus a fydd gan Exxon a'u tebyg fawr o ddiddordeb mewn cynaliadwyedd nes bydd elw mawr yn hynny.

Efallai y dylen ni edrych ar y gost. Beth am y tanau mawr ger Sydney? Rhagflas o'r hyn sydd i ddod?

Gobeithio na fydd y pris yn rhy drwm am oedi cyn ymateb i her Daly.

Hydref 24,2013